Dyfi Forest Cover 19/12/06 10:04 Page 1

Croeso... Welcome...

Mae archwilio tirwedd drawiadol Coedwig Dyfi yn brofiad arbennig iawn. Cyfyd copaon geirw eu pennau uwchben y llethrau coediog sy'n frith o adfeilion rhamantus a thomennydd llechi. Llifeiria nentydd mynyddig drwy ddyffrynnoedd creigiog lle tyf coed derw hynafol dan orchudd o fwsogl. Mae trenau stêm yn gwneud eu ffordd yn araf ar hyd ochr y bryn. Cludo teithwyr y maent erbyn hyn, ond ar un adeg buont yn cludo llechi o'r chwareli i'r arfordir.

O fewn y goedwig ei hun, rydym wedi datblygu cyfres o lwybrau hawdd eu dilyn i'ch helpu i ddarganfod yr ardal ddistaw a dirgel hon. Maent yn amrywio o ran maint ac o ran natur, sy'n golygu bod yma rywbeth sy'n addas i'r rhan fwyaf o gerddwyr.

(Yn anffodus, nid yw'r un o'r llwybrau yn addas i gadair olwyn - maent oll yn cynnwys rhannau serth oherwydd natur y dirwedd)

The spectacular landscape of the Dyfi Forest is well worth exploring. Rugged peaks loom above the forested hillsides that are dotted with atmospheric ruins and slate spoil heaps. Fast flowing mountain streams cascade down rocky valleys, edged by old moss-covered oaks. Steam trains chug along the hillsides, now carrying holidaymakers, but originally carrying slates from the quarries to the coast.

Within the forest we have developed a series of easy to follow trails to help you explore this peaceful and undiscovered area. They vary in length and character so there is something to suit most walkers. (Unfortunately none are suitable for wheelchairs as all have steep sections due to the terrain)



Sut i ddod o hyd i ni...
How to find us...

Mae ceunant creigiog Nant Gwernol, gyda'i raeadrau byrlymus, uwchben dyffryn hyfryd Tal-y-llyn, yng Nghysgod Cadair Idris. Mae'r llwybrau'n dilyn glannau'r afon ac yn arwain at olion hen Chwarel Bryn Eglwys. Gallwch barcio'r car a chychwyn cerdded o neuadd bentref Abergynolwyn neu fynd ar y trên stêm o Dywyn i orsaf Nant Gwernol.

Nant Gwernol, a rocky river gorge with cascading waterfalls, lies above the picturesque Talyllyn valley in the shadow of Cader Idris. The trails follow the riverside and explore the remains of Bryn Eglwys Slate Quarry. You can park and start your walks from Abergynolwyn village hall or take the steam train from Tywyn to Nant Gwernol station.

Mae dau lwybr distaw, sy'n arwain drwy'r coed ac ar hyd glannau'r afon, yn cychwyn o safle picnic Tan y Coed, ar ffordd yr A487 o Gorris. Mae yma Lwybr Pos ar gyfer teuluoedd, a cheir gwybodaeth amdano yn y daflen ddi-dâl sydd ar gael ar y safle.

Tan y Coed picnic site, on the A487 south of Corris, is the starting point for two tranquil woodland and riverside walks. For families there is a Puzzle Trail too described in a free leaflet available on site.

Mae'r safle picnic glan afon hyfryd yn Foel Friog mewn llecyn mwy anghysbell yn Aberllefenni. Oddi yma, mae llwybr Pen y Bryn yn dringo ar hyd ochr y bryn gan fynd heibio i adfeilion ffermdai. Gellir gweld golygfeydd eang o'r llwybr hwn ac mae nifer o Lwybrau Iechyd a Llechi yn cychwyn gerllaw.

The pretty riverside picnic site at Foel Friog is further off the beaten track at Aberllefenni. From here the Pen y Bryn trail climbs the hillside, passing ruined farmsteads and giving wide views. A variety of Health and Slate Walks also start nearby.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

hamdden
recreation

Troeon Coedwig Dyfi
Forest Walks



Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government